APELIADAU ATEBOLRWYDD TRETH Y CYNGOR

Arweiniad i'n
HYSBYSIAD CYDNABOD APÊL

Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys pob pwynt am y Tribiwnlys Prisio. Nid oes rhaid i ni ddilyn popeth yn y canllaw hwn ac nid yw'n effeithio ar sut y defnyddiwn y cyfreithiau neu reoliadau perthnasol. Cyn i ni glywed eich apêl, bydd Clerc Rhanbarthol y Tribiwnlys yn ateb unrhyw gais rhesymol sydd gennych ynglŷn â chyngor am y weithdrefn.

BETH YW'R TRIBIWNLYS PRISIO?

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn gorff barnwrol annibynnol a sefydlwyd yn ôl y gyfraith i wrando ar apeliadau o ran Ardrethi Annomestig, y Dreth Gyngor ac Ardrethi Draenio a'u pennu. Mae TPC yn gweithio o bedair Swyddfa Ranbarthol ar draws Cymru.

Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y Cyngor/Awdurdod Bilio (AB) sy'n codi biliau'r Dreth Gyngor ac Ardrethi, ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n gosod Bandiau'r Dreth Gyngor a Gwerthoedd Ardrethol.

Mae Aelodau TPC yn bobl leol sy'n wirfoddolwyr. Er nad ydynt efallai wedi'u cymhwyso'n broffesiynol, maent yn derbyn hyfforddiant ac yn brofiadol o ran clywed apeliadau. Fel arfer, bydd tri Aelod yn clywed eich apêl [er gall dau Aelod glywed apêl os bydd pawb yn y gwrandawiad yn cytuno]. Mae clerc, sy'n weithiwr cyflogedig yn y Tribiwnlys, yn rhoi cyngor ar bwyntiau'n ymwneud â gweithdrefnau a'r gyfraith.

Mae'r Tribiwnlys yn darparu gwasanaeth rhad ac am ddim felly ni all ddyfarnu costau yn eich erbyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi dalu eich costau eich hun wrth fynd i wrandawiad y Tribiwnlys. Ble bynnag bo modd, clywir apeliadau'n lleol.

SUT DDERBYNIODD Y TRIBIWNLYS PRISIO FY APÊL?

Rydych wedi gofyn i ni ddatrys eich anghydfod â'r cyngor, drwy lenwi'r ffurflen apêl Atebolrwydd Treth y Cyngor.

GWYBODAETH AM APELIADAU ATEBOLRWYDD TRETH Y CYNGOR

Dyma rai enghreifftiau o apeliadau y gall y Tribiwnlys eu hystyried.

- Rydych yn meddwl na ddylech fod yn gyfrifol am dalu'r bil Treth y Cyngor.
- Mae'r cyngor yn gwrthod derbyn fod eich eiddo wedi cael ei addasu i ganiatáu i berson anabl fyw yno.
- Rydych yn meddwl y dylai'r cyngor roi disgownt i chi ar y Dreth Gyngor rydych yn ei thalu.
- Rydych yn meddwl na ddylech orfod talu Treth y Cyngor ar gyfer eich eiddo.
- Mae'r cyngor wedi eich dirwyo am beidio â gyrru rhyw wybodaeth iddo.
- Mae'r cyngor wedi cyflwyno hysbysiad cwblhad ar eich eiddo, ond nid ydych yn meddwl y gellir ei gwblhau erbyn y diwrnod maent wedi ei roi.

Bydd y Cynghorau fel arfer yn cyflwyno hysbysiadau cwblhau ar eiddo newydd. Mae hysbysiad cwblhau yn rhoi'r dyddiad mae'r cyngor yn meddwl y gorffennwyd eich eiddo, neu y gellid yn rhesymol orffen y gwaith erbyn y dyddiad hwnnw.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Bydd y Tribiwnlys yn gyrru hysbysiad o wrandawiad i chi, gan roi o leiaf pedair wythnos o rybudd o'r dyddiad.

Dylai gwrandawiad Tribiwnlys gael ei weld fel cam terfynol eich apêl pan fo trafodaethau blaenorol wedi methu cyrraedd cytundeb. Dylech geisio cynnal trafodaethau gyda'r Awdurdod Bilio tan ddiwrnod y gwrandawiad.

Er mwyn sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'r holl faterion, bydd y TP yn gyrru copïau o unrhyw wybodaeth/ohebiaeth berthnasol sy'n cael ei yrru i'r Tribiwnlys at y partïon.

OES RHAID I MI BARHAU I DALU TRETH Y CYNGOR?

Mae'n rhaid i chi barhau i wneud y taliadau ddangosir ar eich bil treth y cyngor, er eich bod wedi cyflwyno apêl.

BETH SY'N DIGWYDD YNG NGWRANDAWIAD Y TRIBIWNLYS?

Fel rheol, mae'r gwrandawiad yn anffurfiol. Bydd y Tribiwnlys yn penderfynu pwy fydd yn cyflwyno eu hachos yn gyntaf ac yn sicrhau fod unrhyw un sy'n anghyfarwydd â gweithdrefn y Tribiwnlys yn derbyn y cyfle i gyflwyno eu tystiolaeth, a bod y ffactorau perthnasol yn cael eu hystyried. Anfonir taflen yn cynnwys rhagor o wybodaeth gyda'r 'Hysbysiad Gwrandawiad'.

OES ANGEN I MI FYNYCHU'R GWRANDAWIAD?

Mae o fantais os ydych yn gallu mynychu'r gwrandawiad, er mwyn gallu egluro neu ofyn cwestiynau, os oes angen. Fodd bynnag fe ellir delio â'ch apêl yn y ffyrdd canlynol.

Cynrychiolaethau Ysgrifenedig (mewn cysyniad â'r Rheoliadau)

Dim ond os yw'r holl bartïon yn cytuno i ddefnyddio'r dull yma y gall y Tribiwnlys ddelio a'ch apêl yn y modd hwn.

Dim ond y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir gan yr holl bartïon y gellir ei hystyried pan fo apêl yn cael ei benderfynu drwy gynrychiolaeth ysgrifenedig. Nid yw'r partïon yn bresennol mewn gwrandawiadau o'r fath.

Os ydi pawb yn cytuno, yn ysgrifenedig, byddwch yn cael eich hysbysu o'r drefn.

Gall y Tribiwnlys ofyn i'r partïon am fwy o dystiolaeth. Gall hefyd benderfynu mai'r unig ffordd o ddelio â'r achos ydi drwy wrandawiad ffurfiol.

Cyflwyniad Ysgrifenedig

Os nad ydych yn gallu mynychu'r gwrandawiad, ac eisiau i'ch achos gael ei glywed **yn eich absenoldeb**, a'r partïon heb gytuno i'r dull cynrychiolaeth ysgrifenedig ffurfiol, mae'n rhaid i chi ysgrifennu a rhoi manylion unrhyw bwyntiau y dymunwch iddynt gael eu hystyried. Bydd y partïon eraill yn dal i fynychu'r gwrandawiad.

Gall y Tribiwnlys ddiystyru yr apêl, os nad ydych chi na'ch cynrychiolydd yn mynychu'r gwrandawiad.

Rydym yn ymroddedig i drin pob un yn deg. Ni fydd unrhyw un sy'n gwneud apêl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu hil, lliw, cenedligrwydd, oed, crefydd, tras ethnig, rhyw, rhywioldeb, statws priodasol neu anabledd.

Os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol, er enghraifft, eich golwg, clyw neu symudedd, neu os byddwch angen cyfieithydd, rhowch wybod i Swyddfa'r TP o flaen llaw, os gwelwch yn dda. Fe fyddwn yn gwneud ein gorau i'ch helpu.

YDI'N BOSIB CWYNO YNGLŶN Â'R GWASANAETH A DDARPARWYD?

Os oes gennych gwŷn ynglŷn â'r modd y cafodd eich achos ei drin gan weinyddiaeth y TP, yna:

- Yn gyntaf, dylech ysgrifennu at Glerc y Tribiwnlys, yn y cyfeiriad ddangosir yn ein hysbysiadau.
  Byddwch yn cael eich hysbysu o drefn cwyno llawn y Tribiwnlys yn ymateb y Clerc.

Gallwch ddefnyddio'r broses yma o gwyno yn erbyn y modd cafodd eich apêl ei ymdrin yn weinyddol gan y Tribiwnlys, yn unig. Ni allwch apelio yn erbyn penderfyniad drwy'r modd hyn. Mae apêl pellach yn erbyn y penderfyniad i'r Llysoedd Uwch.

RHAGOR O WYBODAETH

Mae hysbysiadau yng Nghymru yn cael eu darparu unai yn Gymraeg a/neu Saesneg, yn ddibynnol ar yr iaith ddefnyddiwyd yn y cynigiad gwreiddiol.

Mae Gwasanaeth y Tribiwnlys Prisio yng Nghymru yn ymroddedig I ddarparu gwasanaeth o safon uchel yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r arweinlyfr hwn yn un o gyfres o daflenni sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth. Mae ein harweinlyfrau eraill yn cynnwys:

- cyngor cyffredinol ynglŷn ag apelio i'r Tribiwnlys;
- arweinlyfr i'n hysbysiad gwrandawiad; ac
- arweinlyfr i'n hysbysiad penderfyniad.

Rydym hefyd yn cynnig arweinlyfrau ynglŷn â delio gyda Prisiad Treth y Cyngor ac apeliadau Rhestr Brisio Annomestig. Os ydych yn dymuno derbyn unrhyw un o'r arweinlyfrau hyn, cysylltwch â Swyddfa'r Tribiwnlys yn y cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiadau.

Ein Cofnodion

Mae gan unrhyw un yr hawl i ymweld â swyddfeydd y TP i edrych ar gopïau o'r agendâu a phenderfyniadau wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe blynedd diwethaf. Agendâu yw rhestr o apeliadau sydd wedi derbyn dyddiad gwrandawiad.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â'r Tribiwnlysoedd Prisio ynghyd â chopïau o'r holl arweinlyfrau ar y gwefan ganlynol sef: www.valuation-tribunals-wales.org.uk

Y prif ddeddfwriaeth sy'n rheoli gweinyddiaeth Treth y Cyngor yw Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992 ynghyd â rheoliadau ategol – yn arbennig;

Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 Rhif 713 (fel y'i diwygiwyd)

RHANBARTH DWYRAIN CYMRU	Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

Tribiwnlys Prisio Cymru
Rhanbarth Dwyrain Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD NP20 4PG
Ffôn: 01633 266367
Ffacs: 01633 253270
E-bost: VTWaleseast@vtw.gsi.gov.uk

CS Powys
CBS Blaenau Gwent
CBS Caerffili
CS Sir Fynwy
CD Casnewydd
CBS Torfaen

RHANBARTH GOGLEDD CYMRU	Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

Tribiwnlys Prisio Cymru
Rhanbarth Gogledd Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth, Bloc A (L1)
Sarn Mynach
CYFFORDD LLANDUDNO LL31 9RZ
Ffôn: 03000 625350
Ffacs: 03000 625368
E-bost: VTWalesnorth@vtw.gsi.gov.uk

CBS Wrecsam
CS Y Fflint
CS Ddinbych
CS Gwynedd
CS Ynys Môn
CBS Conwy

RHANBARTH DE CYMRU	Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

Tribiwnlys Prisio Cymru
Rhanbarth De Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD NP20 4PG
Ffôn: 01633 255003
Ffacs: 01633 255004
E-bost: VTWalessouth@vtw.gsi.gov.uk

CBS Pen-y-bont ar Ogwr
CD Caerdydd
CBS Rhondda Cynon Taf
CBS Bro Morgannwg
CBS Merthyr Tudful

RHANBARTH GORLLEWIN CYMRU	Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

Tribiwnlys Prisio Cymru
Rhanbarth Gorllewin Cymru
Llys-y-Ddraig
Parc Busnes Penllergaer
ABERTAWE SA4 9NX
Ffôn: 03000 254530
Ffacs: 03000 254522
E-bost: VTWaleswest@vtw.gsi.gov.uk

CBS Castell-nedd-Port Talbot
Dinas a Sir Abertawe
CS Caerfyrddin (Rhan 3)
CS Caerfyrddin (Rhan 1 a 2)
CS Ceredigion
CS Sir Benfro